

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Dyddiad Cyhoeddi: 13 Ionawr 2017

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**STATWS: CAMAU GWEITHREDU**

**CATEGORI: IECHYD Y CYHOEDD**

**Teitl: Brechlyn Feirws Papiloma Dynol (HPV) ar gyfer dynion sy'n cael rhyw gyda dynion.**

**Dyddiad dod i ben / Adolygu Amherthnasol**

**I'w weithredu gan:**

Arweinwyr Imiwneiddio, Ymddiriedolaethau/  
Byrddau Iechyd  
Arweinwyr Iechyd Rhywiol, Ymddiriedolaethau/  
Byrddau Iechyd  
Arweinwyr HIV, Ymddiriedolaethau/ Byrddau  
Iechyd  
Arweinwyr Clefydau Heintus, Ymddiriedolaethau/  
Byrddau Iechyd  
Prif Weithredwyr, Ymddiriedolaethau/Byrddau  
Iechyd  
Cyfarwyddwyr Cyllid, Ymddiriedolaethau/Byrddau  
Iechyd  
Prif Fferyllwyr, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd

**Er gwybodaeth i:**

Cyfarwyddwyr Meddygol, Ymddiriedolaethau/  
Byrddau Iechyd  
Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio,  
Ymddiriedolaethau/ Byrddau Iechyd  
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, Byrddau Iechyd  
Cyfarwyddwyr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol,  
Ymddiriedolaethau/ Byrddau Iechyd  
Cyfarwyddwyr Iechyd Sylfaenol, Cymunedol ac  
Iechyd Meddwl, Byrddau Iechyd  
Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd,  
Iechyd Cyhoeddus Cymru  
Pennaeth y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau  
Ataliadwy, Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Anfonwyd gan:**

Prif Swyddog Meddygol Cymru

**Enw(au) Cyswilt AIGC yn Llywodraeth Cymru:**

Melanie Davies, Is-adran Iechyd y Cyhoedd, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ Rhif ffôn: 029 2082 3298.

Annwyl Gydweithiwr,

## **Cyflwyno rhaglen frechu HPV ar gyfer dynion sy'n cael rhyw gyda dynion**

O 1 Ebrill 2017, bydd rhaglen Feirws Papiloma Dynol (HPV) newydd wedi'i thargedu yn cael ei chyflwyno mewn clinigau iechyd rhywiol i ddynion sy'n cael rhyw gyda dynion.

Mae'r rhaglen wedi'i seilio ar gyngor gan y Cydbwyllgor ar Frechu ac Imiwneiddio (JCVI), pwyllgor annibynnol y DU o arbenigwyr imiwneiddio.

### **Cefndir**

Ers cyflwyno'r rhaglen frechu HPV yn erbyn canser ceg y groth yn 2008 ar gyfer merched y glasoed, mae tystiolaeth wedi dod i'r amlwg bod imiwneiddiad HPV yn debygol o ddiogelu yn erbyn amrywiaeth ehangach o glefydau sy'n gysylltiedig â HPV fel canser y pidyn, yr anws, y geg a'r ffaryncs (pen a gwddf).

Mae'r JCVI wedi cydnabod bod dynion sy'n cael rhyw gyda dynion yn grŵp sy'n agored iawn i risg o haint HPV a chlefydau cysylltiedig ac nad ydynt yn cael llawer iawn o fudd iechyd anuniongyrchol o'r rhaglen frechu HPV gyfredol ar gyfer merched. Gellir gweld datganiad llawn JCVI yn:

<https://www.gov.uk/government/publications/jcvi-statement-on-hpv-vaccination-of-men-who-have-sex-with-men>

### **Gweithredu'r Rhaglen**

#### **Trefniadau Darparu Gwasanaeth**

Yng Nghymru, mae byrddau iechyd yn cynnig gwasanaethau iechyd rhywiol trwy glinigau iechyd rhywiol integredig sy'n cynnwys clinigau meddygaeth genhedlol-wrinol fel y cyfeirir atynt gan JCVI. Darperir gofal HIV gan glinigau iechyd rhywiol ac unedau clefydau heintus.

Mae'r rhan fwyaf o ddynion sy'n cael rhyw gyda dynion ac sydd mewn cyswllt rheolaidd â gwasanaethau iechyd rhywiol yng Nghymru yn cael eu gweld mewn clinigau iechyd rhywiol a arweinir gan feddygon ymgynghorol (Lefel 3). Ystyrir mai'r clinigau arbenigol hyn sydd yn y sefyllfa orau i gynnig y brechlyn HPV. Mae'r clinigau yn cynnig brechlynnau Hepatitis B ar hyn o bryd ac mae'r staff wedi'u hyfforddi i roi brechlynnau a rheoli anaffylacsis. Byddai darparu'r brechlyn hwn yn y clinigau hyn yn caniatáu i gleientiaid risg uchel, sy'n dod i gael gwasanaethau iechyd rhywiol cyffredinol, gael eu brechu yn ystod eu hymweliad.

## Cymhwysra

Gallai clinigau gynnig cwrs llawn o frechlyn HPV i'r unigolion canlynol pan eu bod yn defnyddio gwasanaethau gofal iechyd rhywiol:

- Pob dyn 45 oed neu iau sy'n cael rhyw gyda dynion.
- Yn seiliedig ar asesiad clinigol fesul achos o fudd posibl brechlyn HPV, gellid cynnig brechlyn i grwpiau eraill a argymhellir gan JCVI gan gynnwys rhai dynion sy'n cael rhyw gyda dynion ac sy'n hŷn na 45 oed, dynion a menywod trawsryweddol, dynion HIV positif nad ydynt yn cael rhyw gyda dynion, menywod HIV positif a gweithwyr rhyw. Nid oes bwriad i gynnig y brechlyn i bawb o'r grwpiau hyn sy'n mynychu, dim ond y rhai hynny y gallai fod o fudd iddynt yn unigol.
- Dylai gwasanaethau iechyd rhywiol sy'n ymweld â charchardai gynnig brechlyn HPV i ddynion sy'n cael rhyw gyda dynion ac sy'n 45 oed neu'n iau mewn lleoliad carchar ac unigolion risg uchel eraill yn seiliedig ar farn glinigol.

Ni fydd yn ofynnol i glinigau drefnu sesiynau brechu HPV ar wahân i unigolion cymwys nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau gofal iechyd rhywiol.

Ni fydd yn ofynnol i glinigau fynd ati yn rhagweithiol i nodi a chysylltu â chleientiaid cymwys sydd eisoes wedi dod i ddefnyddio gwasanaethau.

Ni chaiff y rhaglen ei chynnig trwy wasanaethau gofal sylfaenol. Gellid rhoi rhagor o ystyriaeth i ymestyn y cynnig i ddarparwyr eraill yn y dyfodol yn seiliedig ar brofiad o gamau cynnar cyflwyno'r rhaglen.

## Y brechlyn

Y brechlyn a gynigir fydd Gardasil®. Mae angen cwrs o dri chwistrelliad ar gyfer unigolion sy'n derbyn y dos cyntaf ar ôl eu pen-blwydd yn 15 oed, a hynny'n ddelfrydol ar ôl 0, 1 a 4-6 mis. Dylid cynnig y dos cyntaf a'r trydydd dos o fewn 12 mis i'w gilydd ond mae 24 mis yn dderbyniol yn glinigol. Ar gyfer unigolion sy'n derbyn y dos cyntaf cyn eu pen-blwydd yn 15 oed, mae cwrs o ddau ddos a roddir o leiaf 6 mis ar wahân yn rhoi'r un lefel o ddiogelwch.

Ceir rhagor o wybodaeth yn Atodiad A (Saesneg yn unig).

## Cyflenwi'r brechlyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn caffael y cyflenwad o'r brechlyn yn ganolog.

Bydd cyflenwad ar wahân o frechlyn Gardasil® yn cael ei sicrhau ar gyfer y rhaglen i ddynion sy'n cael rhyw gyda dynion er mwyn ei archebu ar-lein trwy ImmForm. Ni ddylid defnyddio cyflenwad a fwriedir ar gyfer y rhaglen ysgolion i ferched ar gyfer y rhaglen i ddynion sy'n cael rhyw gyda dynion. Mae'r

trefniant hwn wedi ei roi ar waith ar lefel y DU i helpu i reoli'r cyflenwad cenedlaethol.

Dylai fferyllfeydd a chlinigau unigol y mae angen iddynt archebu'r brechlyn ar gyfer y rhaglen i ddynion sy'n cael rhyw gyda dynion gysylltu â Melanie Davies i roi gwybodaeth cyfrif y cwsmer er mwyn gallu trefnu mynediad at y sgriniau ImmForm priodol.

### Cyllid

Yn unol â threfniadau ar gyfer rhaglenni brechu newydd eraill, cynigir rhoi dyraniad ychwanegol blynyddol i fyrddau iechyd. Bydd hyn yn cynnwys cost y brechlyn a lwfans gweinyddol o £9.80 fesul dos. Dangosir y dyraniadau ar gyfer 2017-18 isod.

Mae'n anodd amcangyfrif y nifer fydd yn dod yn rhan o'r rhaglen tan y bydd yn cael ei sefydlu. Yn ystod blwyddyn gyntaf ei gweithredu, bydd y cyllid yn seiliedig ar dybiaeth y bydd 50% yn cael y cwrs tri dos ar gyfer y nifer o unigolion a nodir isod.

Disgwylir i nifer yr unigolion cymwys ostwng yn ystod y blynyddoedd dilynol wrth i gleientiaid gael eu himiwneiddio. Bydd cyllid 2018-19 a'r blynyddoedd yn y dyfodol yn cael eu haddasu'n briodol drwy roi ystyriaeth i'r union nifer sy'n defnyddio'r rhaglen.

<u>Bwrdd Iechyd</u>	<u>Amcangyfrif o'r nifer o gleientiaid cymwys</u>	<u>Cyllid</u>
Abertawe Bro Morgannwg	728	£32,650
Aneurin Bevan	848	£38,050
Betsi Cadwaladr	476	£21,350
Caerdydd a'r Fro	921	£41,340
Cwm Taf	234	£10,500
Hywel Dda	293	£13,150
	3,500	£157,040

### Hyfforddiant

Bydd y gweithdrefnau brechu yn gyfarwydd i staff clinigau sydd eisoes yn rhoi brechlynnau Hepatitis B. Bydd adnoddau hyfforddi, gan gynnwys pecyn e-ddysgu, i gefnogi'r rhaglen HPV ar gael o:

[www.wales.nhs.uk/immslearning](http://www.wales.nhs.uk/immslearning)

### Casglu Data

Bydd yn ofynnol i glinigau gofnodi statws brechu cleientiaid cymwys. Mae codau SHHAPT eisoes yn bodoli ar gyfer y brechlyn HPV tri dos:

Cod SHHAPT	Disgrifiad
W1	Brechlyn HPV – dos cyntaf
W2	Brechlyn HPV – ail ddos
W3	Brechlyn HPV – trydydd dos

Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu adroddiadau chwarterol ar y niferoedd sy'n defnyddio'r rhaglen i ddarparwyr gwasanaeth a Llywodraeth Cymru.

### Deunyddiau Gwybodaeth

Caiff gwybodaeth am y brechlyn HPV ei darparu mewn clinigau iechyd rhywiol. Mae taflen ffeithiau am y rhaglen ar gael mewn atodiad. Bydd hon ar gael i'w lawrlwytho o wefan Galw Iechyd Cymru yn:

<http://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/doityourself/vaccinations/Leaflets?locale=cy>

Bydd y cardiau cofnodi brechlynnau ar gael i'w harchebu o fis Chwefror. Maint cerdyn credyd yw'r cardiau ac mae lle i gofnodi dyddiadau brechu arnynt. Bydd rhain ar gael mewn bocses o 200 a gellir cael y rhain o:

[hplibrary@wales.nhs.uk](mailto:hplibrary@wales.nhs.uk) neu drwy ffonio 0845 606 4050

### Y Llyfr Gwyrdd

Nid yw'r bennod ar HPV yn *Immunisation against infectious disease* ('y Llyfr Gwyrdd') wedi ei diweddarau gan nad yw'r rhaglen i ddynion sy'n cael rhyw gyda dynion ar gael ledled y DU. Fodd bynnag, mae'r Llyfr Gwyrdd yn cynnwys gwybodaeth am gyflwyno, gweinyddu a storio'r brechlyn.

### Brechlyn HPV i fechgyn y glasoed

Mae'r JCVI yn adolygu'r dystiolaeth ar ymestyn brechu HPV i fechgyn y glasoed. Rhagwelir y bydd cyngor JCVI ar gael yn gynnar yn 2017.

Bydd cyflwyno'r rhaglen frechu newydd hon yn llwyddiannus yn cyfrannu tuag at leihau'r risg o ganserâu sy'n gysylltiedig â HPV a dafadennau gwenerol.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a fydd yn rhan o gyflwyno'r rhaglen am eu hymdrechion a'u hymrwymiad i wella iechyd y cyhoedd.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to be 'Frank Atherton', written in a cursive style.

**Dr Frank Atherton**  
**Prif Swyddog Meddygol / Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru**

## Recommendations for the use of the quadrivalent HPV vaccine (Gardasil®) in MSM

### Administration

1. Gardasil® is administered into the upper arm (deltoid region). The vaccine is provided in a pre-filled syringe.
2. Prior to use, the pre-filled syringe should be shaken well to obtain a white, cloudy suspension. Gardasil® is supplied with a Blue 23 gauge 25mm needle and an orange 25 gauge 16mm needle. The blue needle has the correct width and length recommended for IM administration to most adults.
3. A small air bubble may be visible in the prefilled syringe. This is not harmful and should not be removed prior to administration. This small bolus of air injected following administration of medication clears the needle and prevents a localised reaction from the vaccination. To try to expel it risks accidentally expelling some of the vaccine and therefore not giving the patient the full dose.
4. Any unused medicinal product or waste material should be disposed of in accordance with local requirements.
5. Full guidance on administration is included in the relevant chapter of the “Green Book” and the Summary of Product Characteristics (SPC) for Gardasil®.

### Dosage and schedule

6. Due to the flexibility in the Gardasil® summary of product characteristics (SPC), variable spacing options for the doses are possible. This will enable the administration of subsequent doses to be aligned with recommended clinic re-attendance.

**Three dose schedule for individuals 15 years of age or older:** three doses of 0.5ml.

- First dose of 0.5ml of Gardasil® HPV vaccine.
- Second dose of 0.5ml at least one month after the first dose.
- Third dose of 0.5ml at least three months after the second dose. (Where the second dose is given late and there is a high likelihood the individual will not return for a third dose after three months or if, for practical reasons, it is not possible to schedule a third dose within this timeframe, then a third dose can be given at least one month after the second dose).
- All three doses should ideally be given within one year, however a 24 month period is clinically acceptable.

**Two dose schedule for individuals under 15 years of age:** two doses of 0.5ml given at least six months apart.

- First dose of 0.5ml of Gardasil® HPV vaccine.
  - Second dose of 0.5ml six to 24 months after the first dose.
  - Any gap between doses of between 6 and 24 months is clinically acceptable. As long as the first dose was received before the age of 15 years the two dose schedule can be followed. However if the second dose is not given within the recommended 24 month period then the course should be completed as soon as possible after that time.
7. If the course is interrupted, it should be resumed, but not repeated, ideally allowing the appropriate interval between the remaining doses.

### Contraindications

8. There are very few individuals who cannot receive Gardasil®. When in doubt, appropriate advice should be sought from a consultant with immunisation expertise, a health board immunisation co-ordinator or the local health protection team, rather than withholding immunisation.
9. Gardasil® should **not** be given to those who have had:
- a confirmed anaphylactic reaction to a previous dose of the vaccine, *or*
  - a confirmed anaphylactic reaction to any constituent or excipient of the vaccine.
10. For the composition and full list of excipients of the vaccine, please refer to the manufacturer's Summary of Product Characteristics (SPC).

### Immunosuppression and HIV infection

11. Individuals with immunosuppression and human immunodeficiency virus (HIV) infection (regardless of CD4 count) **should** be given the vaccine in accordance with the routine three dose schedule above.
12. Only a three dose schedule should be offered to individuals in the eligible cohort who are known to be HIV infected.

### Concomitant administration with other vaccines

13. Gardasil® is an inactivated vaccine and will not be affected by, nor interfere with other inactivated or live vaccines given at the same time as or at any interval from each other.
14. Where other vaccines need to be administered at the same visit, they should be given at separate sites, preferably in separate limbs. If given in the same limb, they should be given at least 2.5cm apart. The site at which each vaccine was given should be noted in the individual's health records.

### Consent

15. See Chapter Two of *Immunisation against infectious disease* ('the Green Book'):



## **Storage**

16. Vaccines should be stored in the original packaging between +2°C and +8°C (ideally aim for 5°C) and protected from light. Gardasil® should not be frozen. Freezing may cause increased reactogenicity and loss of potency for some vaccines. It can also cause hairline cracks in the container, leading to contamination of the contents.

## **Vaccine stock management**

17. You should ensure sufficient fridge space is available for the vaccines. A maximum of two weeks of stock is recommended at any one time.
18. Effective management of vaccines throughout the supply chain is essential to reduce vaccine wastage. Local protocols should be in place to reduce vaccine wastage to a minimum. Even small percentage reductions in vaccine wastage will have a major impact on the financing of vaccine supplies.
19. Any cold chain failures or other stock incidents must be documented and reported to the local health board co-ordinator and recorded through the ImmForm website on the Stock Incident page found in the Vaccine Supply section.

## **Reporting of adverse reactions (ADRs)**

20. For a detailed list of ADRs associated with Gardasil® please refer to the manufacturer's Summary of Product Characteristics (SPC) or the Patient Information Leaflet (PIL) that comes with each vaccine.
21. Any suspected ADRs to vaccines should be reported via the Yellow Card Scheme<sup>5</sup> (<https://yellowcard.mhra.gov.uk/>). Chapter 9 of "the Green Book" gives detailed guidance which ADRs to report and how to do so. Additionally, Chapter 8 of "the Green Book" provides detailed advice on managing ADRs following immunisation.
22. Any reported adverse incidents, errors or events during or post vaccination must follow determined procedures.

## **Patient Specific Directions (PSDs)**

23. Public Health Wales will provide a national Patient Group Direction (PGD) template for the programme. The usual method for the supply and administration of vaccines is via a Patient Specific Direction (PSD). The authorisation for this is usually the responsibility of the doctor or an independent nurse prescriber. Where a PSD exists, there is no need for a Patient group Direction (PGD).

Where a PSD is not available, a PGD may be used. A PGD is a written instruction that allows for the supply and/or administration of medicines to groups of patients who present for treatment where it offers an advantage to patient care without compromising safety. A template PGD will be made available for amendment by health professionals to administer the vaccine where a PSD is not available. More information is available from the Public Health Wales vaccine Preventable Disease Programme NHS Wales intranet site at: <http://nww.immunisation.wales.nhs.uk/guidance>

## **Hepatitis B (HBV) vaccination check**

24. Please take the opportunity to check (and correctly code) patients' HBV vaccination status. Maintaining high vaccine coverage in MSM is important to avoid outbreaks of infection. Guidelines for HBV vaccination are detailed elsewhere:

<http://www.bashh.org/documents/New%20Viral%20Hepatitides%20FINAL%20DRAFT%20MAY15.pdf>

[https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/503768/2905115\\_Green\\_Book\\_Chapter\\_18\\_v3\\_0W.PDF](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/503768/2905115_Green_Book_Chapter_18_v3_0W.PDF).

(See points 27 and 28 in this guidance regarding concomitant administration).

# BRECHLYN HPV AR GYFER DYNION SY’N CAEL RHYW GYDA DYNION

## Beth yw Feirws Papiiloma Dynol (HPV) a pha glefydau y gall eu hachosi?

Mae mwy na 100 o fathau o HPV sy’n heintio’r croen a’r pilenni gludiog. Nid yw’r rhan fwyaf o heintiau HPV yn achosi unrhyw symptomau a gall heintiau wella ar eu pen eu hunain fel arfer.

Gall heintiau HPV sy’n parhau arwain at ganser e.e. mathau HPV 16 a 18 sy’n achosi’r rhan fwyaf o’r canserau sy’n gysylltiedig â HPV, sef canser yr anws, y gwddf a’r pidyn mewn dynion a chanser ceg y groth mewn menywod.

Mathau eraill o HPV fel 6 a 11 sy’n achosi dafadennau gwenerol.

## Sut y caiff haint HPV ei ledaenu?

HPV yw un o’r heintiau mwyaf cyffredin a drosglwyddir yn rhywiol yn y DU. Caiff HPV ei ledaenu’n bennaf trwy gysylltiad croen wrth groen. Mae heintiau HPV Gwenerol yn heintus iawn, ac fel arfer maent yn gysylltiedig â chyswllt rhywiol. Mae bron pob unigolyn sy’n cael rhyw yn cael ei heintio â HPV ar ryw adeg yn eu bywydau. Mae’r risg yn cynyddu gyda nifer y partneriaid rhywiol sydd gennych chi/eich partner.

## A yw’n bosibl atal haint HPV?

Nid yw condomau yn gwarantu diogelwch rhag cael eich heintio. Mae hyn oherwydd y gellir trosglwyddo HPV trwy gysylltiad â chroen ar rannau na chaiff eu gorchuddio gan gondomau.

Y ffordd orau o amddiffyn eich hun rhag haint HPV yw cael eich brechu. Enw’r brechlyn a gynigir i ddynion sy’n cael rhyw gyda dynion ac sy’n dod i glinigau iechyd rhywiol/HIV yw Gardasil. Mae’n amddiffyn rhag y pedwar math o HPV, 6, 11, 16 a 18, sy’n gyfrifol am achosi canserau a dafadennau gwenerol.

Mae’r brechlyn yn gwrs o 3 chwistrelliad dros 4-12 mis os ydych yn cael y dos cyntaf yn 15 oed neu’n hŷn. Os ydych yn cael y dos cyntaf cyn eich bod yn 15 oed, dim ond dau ddos y mae eu hangen arnoch (6 mis ar wahân). Yn ddelfrydol, dylid rhoi’r brechlyn cyn i chi ddechrau cael rhyw ond mae’r amddiffyniad yn dal i fod yn dda os byddwch yn cael y brechlyn yn hwyrach. I gael yr amddiffyniad gorau, mae’n bwysig eich bod yn cael y cwrs llawn o’r brechlyn.

### O 15 i 45 mlwydd oed:

Dos cyntaf

Ail ddos  
o leiaf un mis ar ôl y dos cyntaf

Trydydd dos  
3 mis ar ôl yr ail ddos ac yn ddelfrydol o fewn 12 mis i’r dos cyntaf

## **I bwy y cynigir y brechlyn HPV mewn clinigau iechyd rhywiol/HIV?**

Mae panel arbenigwyr y DU ar faterion imiwneiddio, y Cydbwyllgor ar Frechu ac Imiwneiddio (JCVI), wedi argymhell y dylid cynnig brechlyn HPV i'r holl ddynion sy'n cael rhyw gyda dynion ac sy'n 45 oed neu'n iau pan eu bod yn dod i glinigau iechyd rhywiol/HIV am wasanaethau iechyd rhywiol.

Gallai unigolion eraill gael cynnig y brechlyn HPV yn seiliedig ar asesiad clinigol o'r budd posibl. Mae'r rhain yn cynnwys rhai dynion sy'n cael rhyw gyda dynion ac sy'n hŷn na 45 oed, dynion a menywod trawsryweddol, dynion HIV positif nad ydynt yn ddynion sy'n cael rhyw gyda dynion, menywod HIV positif a gweithwyr rhyw.

## **Pam dylai dynion sy'n cael rhyw gyda dynion ac sy'n dod i glinigau iechyd rhywiol/HIV gael eu brechu?**

Mae'r risg o gael canser yr anws yn uwch i ddynion sy'n cael rhyw gyda dynion nag i ddynion heterorywiol. Os oes gennych chi HIV, mae'r risg hwn yn uwch eto. Hefyd, mae dynion sy'n cael rhyw gyda dynion yn fwy tebygol o gael dafadennau gwenerol.

Yn y DU, mae rhaglen brechu HPV ar gyfer merched 12-13 oed wedi bod ar waith ers 2008. Mae brechu'r mwyafrif o'r merched yn y DU yn golygu bod eu partneriaid gwrywaidd yn y dyfodol yn cael peth diogelwch hefyd. Fodd bynnag, bydd bechgyn sy'n dod yn ddynion sy'n cael rhyw gyda dynion yn cael llawer llai o'r diogelwch hwn.

Mae brechu HPV yn ffordd effeithiol iawn o leihau eich risg o gael dafadennau gwenerol a'ch risg o ddatblygu canser sy'n gysylltiedig â HPV yn y dyfodol.

## **A yw'r brechlyn yn ddiogel?**

Mae Gardasil yn frechlyn diogel iawn. Mae'r brechlyn yn bodloni'r safonau diogelwch llym iawn sy'n ofynnol er mwyn gallu ei ddefnyddio yn y DU ac mewn gwledydd eraill yn Ewrop. Mae wedi ei ddefnyddio yn y DU ers hydref 2012. Mae wedi cael ei roi yn ddiogel i filiynau o bobl yn Ewrop, Cyfandiroedd America ac Awstralia. Mae diogelwch y brechlyn HPV yn ystyriaeth ddifrifol i Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaeth a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA), a chaiff ei ddiogelwch ei adolygu'n barhaus.

## **A oes unrhyw sgîl-ffeithiau iddo?**

Mae'r sgîl-ffeithiau mwyaf cyffredin yn debyg i frechlynnau cyffredin eraill a gallant gynnwys tynerwch, chwyddo a chochni yn lleoliad y chwistrelliad a chur pen. Mae sgîl-ffeithiau mwy difrifol yn brin.

## **I gael rhagor o wybodaeth, siaradwch â'r nyrs neu'r meddyg yn eich clinig**